CYMDEITHAS GWAITH MAES
RHIFYN 36
MAI 2008

Grugiar Du a Ffermio

gan Marc Hughes (Ysgol Craig y Don)

Un o'r digwyddiadau mwyaf cofiadwy ym myd natur yn ystod y gwanwyn cynnar yw'r arddangosfa mae ceiliogod y Grugiar Du yn ei berfformio. Mae'r ceiliogod duon yn ymgynnull mewn mannau agored yn y coed, a elwir yn 'Lec' ac yn ceisio denu'r iâr drwy ddawnsio gyda'u cynffon ar led fel siâp telyn â'u pen yn isel. Clywir swn unigryw gan y gwrywod, fel ffynnon yn byrlymu i lawr ochor mynydd wedi'i eiledu efo galwad fel tisian, sydd yn cario 'n bell dros yr ucheldiroedd. Gallwch weld y rhain ar wefan yr RSPB

Nid oes aderyn tebyg i weld ar ucheldiroedd Cymru. Aderyn du hardd yw'r ceiliog, ac mae ganddo grib coch a phlu gwyn o dan ei gynffon. Mae tua'r un maint ag iâr ddomestig. Mae'r iâr ychydig yn llai ac mae ganddi blu brith. Mae ganddi fariau brown tywyll ar y rhan isaf, a bariau brown goleuach ar ran uchaf ei chorff. Mae ganddi gynffon fer gyda fforch fechan ynddi, tua 41 cm o hyd.

Fe welir yr aderyn hardd yma ar gyrion gweundiroedd, lle y mae'r gweundir yn cwrdd â thir pori bras a choetiroedd helyg, bedw a choed conifferaidd. Bydd yn gwneud ei nyth ar y ddaear fel arfer, ond ambell waith bydd yn nythu yn isel mewn llwyn gan ddefnyddio hen nyth a wnaed gan rywogaeth arall, megis bran neu ysguthan. Y fenyw sydd yn gyfrifol am ddeor yr wyau ac yna magu'r cywion. Fel rheol mae'n dodwy rhwng 8 a 10 o wyau o fis Mai ymlaen a bydd yr wyau wedi deor ymhen tua 24 diwrnod.

Mae'r rugiar ddu i'w chael ar yr uwchdiroedd o Gymru i Ogledd yr Alban, ond gwelwyd gostyngiad sylweddol yn ei dosbarthiad ers y 1970au. Mae'r dirywiad yma yn gysylltiedig â newidiadau mewn defnydd tir, megis pori dwys a gwella tir pori yn yr uwchdiroedd. Yma yng Nghymru gwelwyd yr un gostyngiad ers yr 70'au ac ar un adeg amcangyfrifwyd y gallai'r rhywogaeth farw allan os na chafwyd ymyrraeth ddynol o fewn pymtheg mlynedd. Oherwydd hyn, mae'r aderyn 'rhestr goch' yma yn rhywogaeth sy'n cael blaenoriaeth uchel ar gyfer gweithredu gan gyrff cadwraeth a'r llywodraeth. Mae pethau'n edrych ychydig yn fwy positif erbyn hyn ar ôl gwaith pwysig gan y RSPB, Cyngor Cefn Gwlad a'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae amcangyfrifon diweddar o niferoedd o'r gwryw sy'n arddangos wedi codi o isafbwynt niferoedd y ceiliogod yn y 90'au cynnar i heddiw ar ucheldiroedd Cymru.

Pam oedd yr aderyn dan fygythiad?
Y prif reswm dros y dirywiad sydyn a dramatig yw colli cynefinoedd. Mae'r adar yn hoff iawn o rosdir grug. Ers 1947 bu gostyngiad o dros 50% yng ngrug ucheldir Cymru. Bu ffermwyr yn draenio tir i wella ei safon ac yna yn gorbori ddefaid. Diflannodd y grug mewn rhai ardaloedd. Aeddfedodd coedwigoedd gan arwain at fwy o golli grug. Roedd y dull traddodiadol o reoli rhostir, trwy losgi'r grug yn gylchol wedi dirywio neu ddiflannu. Heb eu gwarchod mae'n debyg y byddai mwy o rostir grug yn cael ei golli. Dim rhosdir, dim grugieir du.
Bydd y cynefin yn troi yn laswelltir asidig gwael gyda lefel uchel o bori.

Sut gellir helpu'r grugieir?
Yn 1997 lansiwyd prosiect i adfer y Grugiar Ddu yng Nghymru gan y Comisiwn Coedwigaeth, yr RSPB a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Y bwriad oed ceisio rhoi diwedd ar y dirywiad yn niferoedd y grugieir yng Nghymru. Dewiswyd yr ardaloedd ble roedd y Grugiar Du i'w gweld yn rheolaidd, megis ardaloedd yn Sir Ddinbych, Powys, Gwynedd a Meirionydd a hysbyswyd bob fferm a thirfeddiannwr am y broblem, ynghyd a sut y gallent fod o gymorth. Trwy gynlluniau i losgi eithin yn rheolaidd i adfywio'r eithin, llus, hesg a gweiriau a hefyd i dorri'r coed conwydd aeddfed i adfer y rhostir eithin ag ymyl pluo'r goedwig mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiant. Rhwng 1997 a 2002 cododd niferoedd y Grugiar Du o 88% yn yr ardaloedd oedd wedi eu rheoli. Y tu allan i'r ardaloedd hyn fo bynnag, parhaodd y boblogaeth i syrthio.

Gwaith didoli.
Darllenwch yr erthygl. Mae'r brawddegau yma wedi eu cymysgu. Mae rhai yn perthyn i gategori cadarnhaol - dylanwad positif ar niferoedd y grugieir, a'r lleill yn perthyn i gategori negyddol - ffactorau sydd yn achosi poblogaeth i ostwng. Fedrwch chi eu didoli yn gywir?

1 Rhostir yn cael ei draenio ar gyfer creu tir pori.
2 Codi ymwybyddiaeth y byd ffermio a thirfeddianwyr o'r broblem
3 Gorbori gan ddefaid
4 Coedwigoedd Coniffer yn aeddfedu
5 Plannu coed coniffer i gymryd lle'r coed sydd wedi aeddfedu gormod.
6 Gwarchod y rhostiroedd a mabwysiadu cynlluniau llosgi eithin fel yr hen arfer
7 Gwarchod yr ardal rhag ymyrraeth a monitro'r lleoedd yn aml.
8 Arferion traddodiadol o reoli rhostir yn diflannu
9 Torri coed conifferaidd aeddfed
10 Difrod i'r cynefin gan gerddwyr, gweithgareddau antur megis beicio ayb.

Ffactorau sy'n achosi poblogaeth y Grugiar Du i ostwng	Ffactorau sy'n cael dylanwad bositif ar boblogaeth y Grugiar Du

Fedrwch chi feddwl am unrhyw ffactorau eraill allai gael effaith gadarnhaol neu negyddol?